Cynllun Benthyca Cyfrifiaduron Llechen y Fro: Adroddiad Diwedd Prosiect

Tabl Cynnwys

Cefndir y Prosiect? 3
Mynd i'r afael â'r angen? 3
Nodau ac Amcanion 3
Y Broses Weithredu 4
Rhanddeiliaid 4
Sut cafodd y prosiect hwn ei ariannu? 5
Beth yw canlyniadau'r prosiect hwn hyd yma? 5
Beth yw'r cynlluniau ar gyfer y prosiect hwn yn y dyfodol? 6
Argymhellion ar gyfer sefydlu cynllun benthyca dyfeisiau 6
Rhannu arfer da. 6
Gweithgor mewnol: 7
Perchnogaeth: 7
Monitro a gwerthuso data 7
Bodloni gofynion data a signalau: 8
Siop appiau pwrpasol 8
Unrhyw wybodaeth arall am y prosiect? 9
Dibyniaeth ar WIFI cyhoeddus: 9
Cau Llyfrgelloedd: 9
Eisiau gwybod mwy? 9
Diolch 9
Atodiad 11
Ffurflen Asesu a chanfyddiadau Cynllun Benthyca Cyfrifiaduron Llechen y Fro: 11
Dadansoddiad o'r dyfeisiau: 18
Astudiaeth Achos 1: 19
Astudiaeth Achos 2: 20
Astudiaeth Achos 3: 20
Astudiaeth Achos 4: 22
Astudiaeth Achos 5 22
Astudiaeth Achos 6 23

Cefndir y Prosiect?

Mewn oes gynyddol ddigidol, mae'r rhai nad oes ganddynt fynediad na'r sgiliau i ymgysylltu â'r byd digidol mewn perygl o gael eu gadael ar ôl.

Sefydlwyd 'Cynllun Benthyca Cyfrifiaduron Llechen y Fro' i fynd i'r afael â hyn drwy brofi pa mor effeithlon ac effeithiol yw benthyca llechi â WIFI drwy lyfrgelloedd lleol, ynghyd â hyfforddiant sgiliau digidol sylfaenol, ac i ba raddau mae hyn yn rhoi gwerth am arian wrth leihau allgáu digidol ym Mro Morgannwg.

Mynd i'r afael â'r angen?

Cynhwysiant Digidol yn ôl *'Cymunedau Digidol Cymru'* yw bod â'r cymhelliant, y sgiliau a'r mynediad i ddefnyddio technoleg ddigidol a'r rhyngrwyd.

Gall pobl nad oes ganddynt un neu gyfuniad o'r sgiliau hyn gael eu hallgáu'n ddigidol, a bod mewn perygl o gael eu gadael ar ôl mewn cymdeithas gynyddol ddigidol lle mae mwyfwy o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, yn mynd ar-lein.

Yn ôl ymchwil gan *Arolwg Cenedlaethol Cymru* doedd 10% o boblogaeth Cymru ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd yn 2019-2020 a roedd gan 12% o'r rhai oedd yn defnyddio'r rhyngrwyd sgiliau cyfyngedig yn unig.

Gan edrych yn benodol ar Fro Morgannwg, yn ôl y*stadegau Llywodraeth Cymru (2018-2019 (16+))*, nid yw 8% o'r boblogaeth yn defnyddio'r rhyngrwyd gartref, yn y gwaith nac mewn mannau eraill at ddiben personol.

Nodau ac Amcanion

Does dim un rheswm pam mae rhai pobl wedi'u hallgau'n ddigidol ond y prif resymau dros fod all-lein yw:

- Diffyg diddordeb
- Diffyg sgiliau
- Cost offer

Nod y prosiect yw mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn drwy greu mwy o fynediad i dechnolegau digidol, datblygu a chydlynu rhaglen gwirfoddolwyr digidol a fydd yn gweithio ochr yn ochr â'r prosiect i gynyddu sgiliau digidol a hyder oedolion hŷn, oedolion sy'n derbyn budd-daliadau ar hyn o bryd ac oedolion ag anabledd sy'n byw ym Mro

Morgannwg, a gweithio gyda phartneriaid i ddarparu llwybrau clir at ddysgu pellach a hyfforddiant achrededig i'r rhai sydd am gymryd eu camau nesaf ar eu taith ddigidol.

Y Broses Weithredu

Cyfranogwyr peilot:

- Nodwyd cyfranogwyr o lwybrau atgyfeirio ynghyd â hunanatgyfeiriadau.
- Cytunodd y cyfranogwyr i delerau ac amodau'r defnydd.
- Cytunodd y cyfranogwyr i ymgymryd â chymorth sgiliau digidol (rhoddwyd cymorth mwy dwys os oedd ei angen).

Rheoli Dyfeisiau:

- Rhoddir y cyfrifiaduron llechen â Wifi at ei gilydd ac fe'u benthycir drwy'r llyfrgelloedd a'r llyfrgelloedd cymunedol.
- Y llyfrgelloedd a'r llyfrgelloedd cymunedol sy'n cynnal a chadw systemau gweithredu'r cyfrifiaduron llechen.
- Galluogwyd protocolau hidlo cynnwys a seiberddiogelwch i sicrhau bod y prosiect yn bodloni canllawiau dyletswyddau Prevent.

Rheoli Prosiectau:

- Roedd marchnata a hyrwyddo'n sicrhau bod digon o ddiddordeb gan gyfranogwyr posibl drwy atgyfeiriadau.
- Mae gwaith monitro'n cael ei wneud a'i ymgorffori yn y model cyflawni prosiectau i sicrhau bod y prosiect yn addasu i anghenion defnyddwyr gwasanaeth.

Cymorth sgiliau digidol:

- Darparwyd cymorth sgiliau digidol gorfodol i bob cyfranogwr.
- Cafodd Ystafell Ddosbarth Rithwir Cymorth Digidol ei gosod a'i gwneud yn hygyrch ar bob dyfais.
- Darparwyd taflenni am lwybrau perthnasol i ddysgu pellach a dysgu achrededig ar ddiwedd y cyfnod o fenthyca'r llechen.

Rhanddeiliaid

CYFRANOGIAD UNIONGYRCHOL WRTH WEITHREDU A CHYFLAWNI PROSIECTAU:		
ENW	SEFYDLIAD	LEFEL Y CYFRANOGIAD
Scott Tandy	Cymdeithas Dai Newydd	Arweinydd y Prosiect
Danielle Roberts	Cymunedau Digidol Cymru	Arweinydd y Prosiect
Phil Southard	Cyngor Bro Morgannwg	Uwch Reolwyr
Chris Edwards	Gwasanaethau Llyfrgell Bro Morgannwg	Uwch Reolwyr

GRŴP DEFNYDDWYR		
ENW	SEFYDLIAD	LEFEL Y CYFRANOGIAD
Scott Tandy	Cymdeithas Dai Newydd	Gweinyddwr
Matthew Wilkinson	Cymdeithas Dai Newydd	Gweinyddwr
Rhodri Matthew	Gwasanaethau Llyfrgell Bro Morgannwg	Defnyddiwr
Melanie Weeks	Gwasanaethau Llyfrgell Bro Morgannwg	Defnyddiwr
Katherine Owen	Gwasanaethau Llyfrgell Bro Morgannwg	Defnyddiwr
Deborah Morgan	Gwasanaethau Llyfrgell Bro Morgannwg	Defnyddiwr
Phil Guici	Gwasanaethau Llyfrgell Bro Morgannwg	Defnyddiwr
Amanda Sarll	Gwasanaethau Llyfrgell Bro Morgannwg	Defnyddiwr
David Doyle	Hyrwyddwyr Digidol	Profwr Prosiect
Gareth Hughes	Hyrwyddwyr Digidol	Profwr Prosiect

Sut cafodd y prosiect hwn ei ariannu?

Ariannwyd y prosiect drwy raglen cynhwysiant digidol Newydd, Cymunedau Gwledig Creadigol, Cyngor Bro Morgannwg, Gwasanaethau Llyfrgell Bro Morgannwg, Cartrefi'r Fro, ac arian a sicrhawyd drwy Gronfa Arwyr y Fro a chymalau buddion cymunedol cymdeithasol o fewn ein contractau tendro gyda WK Plasterers a Hale Construction.

Cyflwynwyd y prosiect mewn partneriaeth â Chymunedau Digidol Cymru, Cyngor Bro Morgannwg, Gwasanaeth Llyfrgell Bro Morgannwg a Llyfrgelloedd Cymunedol Bro Morgannwg.

Beth yw canlyniadau'r prosiect hwn hyd yma?

Prif nodau'r prosiect hwn oedd creu mwy o fynediad i dechnolegau digidol, datblygu a chydlynu rhaglen gwirfoddolwyr digidol a fydd yn gweithio ochr yn ochr â'r prosiect i gynyddu sgiliau digidol a hyder oedolion hŷn, oedolion sy'n derbyn budd-daliadau ar hyn o bryd ac oedolion ag anabledd sy'n byw ym Mro Morgannwg, a gweithio gyda phartneriaid i ddarparu llwybrau clir at ddysgu pellach a hyfforddiant achrededig i'r rhai sydd am gymryd eu camau nesaf ar eu taith ddigidol.

Ar ôl casglu ymatebion gan gyfranogwyr (dyddiedig 31.03.2021), nodwyd bod 64 o gyfrifiaduron llechen wedi'u benthyca i unigolion o'r grwpiau canlynol:

- Oedolion hŷn (55 oed +).
- Oedolion sy'n derbyn budd-daliadau ar hyn o bryd.
- Oedolion ag anabledd.

O'r rhain:

- Mae'r holl gyfranogwyr yn ddigon cymwys a hyderus i gael mynediad i'r rhyngrwyd o'r llechen.
- Enillodd y cyfranogwyr lefel sylfaenol o sgiliau digidol a gwell dealltwriaeth o sut i gadw eu hunain a'u data'n ddiogel tra byddant ar-lein.
- Mae'r holl gyfranogwyr yn gwybod ym mha le i gael gafael ar gymorth lleol i aros ar-lein.
- Mae cyfranogwyr wedi sôn am effaith gadarnhaol yn eu bywydau o ganlyniad i gymryd rhan yn y peilot hwn, wedi'i mesur drwy ddata a dadansoddiadau ansoddol a meintiol yn ystod y cyfnod gwerthuso.

Drwy gydol cyfnod y peilot, roedd cynllun benthyca dyfeisiau Cymdeithas Dai Newydd yn rhedeg ochr yn ochr â Chynllun Benthyca Cyfrifiaduron Llechen y Fro ac fe'i defnyddiwyd i ategu'r peilot, diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth pan oedd dyfeisiau o Gynllun y Fro naill ai ar fenthyg gan rywun neu nad oedd modd cael gafael arnynt oherwydd bod llyfrgelloedd ar gau. Mae data monitro a gwerthuso a gasglwyd ar hyn yn dangos bod 72 o ddyfeisiau pellach wedi'u benthyca, gan ddod â chyfanswm nifer y dyfeisiau a fenthycwyd i 136 ym Mro Morgannwg yn ystod y cyfnod peilot.

Beth yw'r cynlluniau ar gyfer y prosiect hwn yn y dyfodol?

Cytunwyd y bydd y prosiect yn cael ei ddatblygu gan staff o Gymdeithas Dai Newydd, Gwasanaeth Llyfrgelloedd Bro Morgannwg a Chartrefi'r Fro.

Rydym yn awyddus i adeiladu ar y profiad a gafwyd yn ystod y cynllun peilot hwn i helpu awdurdodau lleol eraill a Chymdeithasau Tai gyda'u cynlluniau benthyca dyfeisiau, ynghyd â chryfhau ein cynlluniau ein hunain ac i'r perwyl hwnnw, rydym wedi creu 'Sianel Timau' lle rydym yn mynd ati i hyrwyddo, hwyluso trafodaeth, ac annog cydweithredu a chydweithio rhwng y 17 aelod *(ar yr adeg yr ysgrifennwyd yr adroddiad hwn)* ledled Cymru a Lloegr.

Argymhellion ar gyfer sefydlu cynllun benthyca dyfeisiau

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed ar Gynllun Benthyca Cyfrifiaduron Llechen y Fro, mae'r argymhellion canlynol wedi'u nodi ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno gweithredu cynllun benthyca dyfeisiau.

Rhannu arfer da.

Dylai sefydliadau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector gydweithio i wella'r gwasanaeth a gynigir drwy gydweithio, a defnyddio a rhannu data a gwybodaeth.

Mae ethos o'r fath yn eglur yn sianel Tîm 'Cynllun Benthyca Dyfeisiau' Cymdeithas Dai Newydd lle mae 17 o Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai o Gymru a Lloegr yn gweithio ar y cyd ar broblemau cyffredin, yn cefnogi ei gilydd, ac yn rhannu arfer gorau mewn meysydd gwaith sy'n ymwneud â chynllun benthyca dyfeisiau.

Gweithgor mewnol:

Byddai o fudd i unrhyw sefydliad sy'n arwain ar hyn greu gweithgor mewnol sy'n caniatáu i bawb gael mewnbwn uniongyrchol yn natblygiad a gweithrediad y prosiect, gan greu cymdeithas a gweithlu sydd â'r sgiliau cywir i weithredu a chynnal y prosiect.

Anwybyddwyd hyn yng Nghynllun Benthyca Cyfrifiaduron Llechen y Fro ac o ganlyniad gohiriwyd lansio'r prosiect oherwydd cyfnod integreiddio estynedig Blackberry UEM. Credaf fod hyn oherwydd bod staff a gwirfoddolwyr yn ymwrthod â newid a mabwysiadu technoleg newydd. Er mwyn gweithredu'r dechnoleg hon yn llwyddiannus, mae'r grŵp yn darparu hyfforddiant a chymorth parhaus, cyfathrebu symlach rhwng llyfrgelloedd a Newydd *(sy'n arwain ar y trawsnewid)* a chanllawiau i gynnig proses i gwblhau tasgau cyffredin.

Perchnogaeth:

Credir mai'r awdurdod lleol sydd yn y sefyllfa orau i arwain prosiect o'r fath oherwydd bod eu lleoliadau o fannau mynediad cymunedol yn hawdd eu cyrraedd ledled y fwrdeistref, gyda chefnogaeth cynrychiolwyr â diddordeb o sefydliadau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector.

Bydd darparu dull gweithredu o'r fath yn sicrhau bod digon o alw drwy lwybrau atgyfeirio cryf, ac nad yw cynnig o'r fath yn cael ei dorri'n ddarnau gan sefydliadau eraill sydd â nod cyffredin o gefnogi'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

Monitro a gwerthuso data

Roedd y gwaith papur monitro a gwerthuso a sefydlwyd ar gyfer y prosiect yn sicrhau ein bod yn dadansoddi data'r defnyddwyr gwasanaeth ac yn gwirio effeithlonrwydd y rhaglenni. Roedd y data'n galluogi'r prosiect i gynllunio, monitro a gwella'r cynnig i'r defnyddwyr gwasanaeth.

Gyda phandemig y coronafeirws yn cau pob llyfrgell, ac felly'n rhwystro'r gallu i gael gafael ar beiriannau argraffu a gwaith papur monitro a gwerthuso hanfodol, nid oedd y grŵp yn gallu casglu llawer iawn o ddata drwy gydol y peilot.

Rhoddwyd cynnig ar ffyrdd eraill o gasglu data, ond byddai pob prawf newydd yn arwain at gymorth a hyfforddiant ychwanegol i staff rheng flaen ar weithdrefnau newydd, a oedd yn peri problemau mawr i ni. Y ffordd fwyaf llwyddiannus a ganfuwyd gennym o gasglu

data monitro a gwerthuso drwy gydol y cyfnod hwn oedd creu ffurflen ar-lein a llwytho llwybr byr iddi ar y ddyfais, yna annog defnyddwyr gwasanaeth i glicio ar y rhagasesiad a'i gwblhau. Yn y calendr, crëwyd nodyn atgoffa bythefnos ar ôl dechrau'r benthyciad a fyddai'n ymddangos fel ffenestr naid ac yn annog y defnyddiwr i gwblhau'r ôl-werthusiad.

Argymhellir archwilio ymhellach i'r broses hon ynghyd â pherson dynodedig o'r tu mewn i'r gweithgor i arwain y maes gwaith hwn gan sicrhau bod yr holl waith papur yn cael ei gwblhau a'i ddiweddaru.

Bodloni gofynion data a signalau:

At ddibenion y peilot hwn, prynwyd cardiau SIM gydag uchafswm o 8GB o ddata y mis, a oedd yn gweithredu dros rwydwaith 'Three'.

Er mwyn monitro'r defnydd o ddata, crëwyd hysbysiadau e-bost a fyddai'n hysbysu arweinwyr prosiectau pan fyddai cerdyn SIM yn cyrraedd 5GB, 7GB, ac 8GB. Diben hyn oedd y byddai'n caniatáu amser i'r gweithgor gysylltu â'r defnyddwyr gwasanaeth a'u haddysgu ar ffyrdd y gallant arafu eu defnydd o ddata er mwyn osgoi sefyllfa lle nad oes data ar ôl Dim ond ddwywaith drwy gydol cyfnod y peilot yr hysbyswyd y gweithgor o ddefnydd data o'r fath sydd, o ganlyniad, yn awgrymu bod y contract data a brynwyd yn wreiddiol wedi'i osod yn rhy uchel ar gyfer y prosiect. Wrth fynd ymlaen argymhellir bod y prosiect yn gostwng y data fesul dyfais i 5GB.

At hynny, mewn llawer o achosion roedd nifer o ddyfeisiau na chafodd eu benthyg am gyfnod o amser. Arweiniodd hyn at golli'r holl ddata nas defnyddiwyd. Wrth symud ymlaen argymhellir cyfuno'r contract data, gyda pholisi defnydd teg sy'n sicrhau bod data'n cael ei ddefnyddio'n well rhwng y dyfeisiau gweithredol a'r dyfeisiau nad ydynt yn weithredol, ond nad ydynt ychwaith yn caniatáu i'r defnyddwyr gwasanaeth gweithredol ddefnyddio'r holl ddata.

Roedd defnyddio rhwydwaith 'Three' fel y Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd yn sicrhau bod rhannau mawr o Fro Morgannwg yn derbyn signal rhyngrwyd da, ond roedd sawl achlysur lle nad oedd rhwydwaith 'Three' ar gael. Ar adegau o'r fath roedd hyn wedi arwain at y defnyddiwr gwasanaeth yn dychwelyd y ddyfais gan na fyddai'n diwallu'r angen. Wrth symud ymlaen argymhellir bod y prosiect yn defnyddio SIM aml-grwydro gan y byddai'n caniatáu i'r dyfeisiau gysylltu'n awtomatig â'r signal gorau o fewn unrhyw ardal benodol.

Siop appiau pwrpasol

Er mwyn hysbysu defnyddwyr gwasanaeth o ddefnydd posibl o'r dyfeisiau a fenthyciwyd, byddem yn gwthio appiau i'r dyfeisiau lle byddai o fudd, yn ein tyb ni, i'r defnyddiwr gwasanaeth wybod amdanynt e.e. BorrowBox, RB Digital, Google Classroom, app Cyngor Bro Morgannwg, NHS COVID-19, appiau fideoalwadau, gemau a mwy.

Yn dilyn trafodaethau â llawer o'r defnyddwyr gwasanaeth, yr adborth a gawsom ganddynt oedd bod yr appiau yn fuddiol, ond ei bod braidd yn ormod gweld cynifer o appiau ar y ddyfais. Yn dilyn hyn, crëwyd siop appiau bwrpasol a symud llawer o'r appiau iddi. Roedd hyn yn chwynnu'r dyfeisiau o ormod o appiau ac yn caniatáu i'r gweithgor wthio mwy o appiau o ddiddordeb ynddi. Ar ôl i'r defnyddiwr gwasanaeth agor y siop appiau, byddai'n caniatáu iddynt chwilio a lawrlwytho unrhyw app a gafodd ei wthio i mewn iddi yn gyflym ac yn hawdd.

Argymhellir archwilio ymhellach i siop appiau bwrpasol ac ystyried analluogi Apples AppStore er mwyn diogelu'r defnyddiwr gwasanaeth ymhellach rhag unrhyw appiau heb eu hawdurdodi.

Unrhyw wybodaeth arall am y prosiect?

Dibyniaeth ar WIFI cyhoeddus:

Mae seilwaith digidol 'The Cloud' Gwasanaeth Llyfrgelloedd Bro Morgannwg wedi dangos ei fod yn llesteirio'r gwaith o ddileu data ac ad-drefnu'r cyfrifiaduron llechen gan fod signalau gwan wedi golygu y gall tasg pum munud gymryd rhwng 1 awr ac 1 diwrnod i'w chyflawni ar gyfartaledd. Oherwydd hyn rydym wedi canfod bod cyfrifiaduron llechen yn aros yn y llyfrgelloedd am lawer hirach ac felly wedi cael effaith andwyol ar y nifer o weithiau y mae'r cyfrifiaduron llechen wedi'u benthyca.

Cau Llyfrgelloedd:

Caewyd llyfrgelloedd ym Mro Morgannwg rhwng 17 Mawrth 2020 a 29 Mehefin 2020 oherwydd pandemig y coronafeirws. Caewyd y llyfrgelloedd hefyd rhwng 24 Hydref 2020 a 8 Tachwedd, a 24 Rhagfyr a 3 Ionawr. Ers hynny mae'r llyfrgelloedd a'r llyfrgelloedd cymunedol wedi ailagor ar gyfer gwasanaeth clicio a chasglu *(ar yr adeg yr ysgrifennwyd yr adroddiad hwn)*.

Eisiau gwybod mwy?

I gael rhagor o wybodaeth am y gofynion sylfaenol ar gyfer sefydlu a chynnal prosiect cynllun benthyca dyfeisiau, cysylltwch â Scott Tandy, Cymdeithas Dai Newydd ar scott.tandy@newydd.co.uk neu Danielle Roberts, Cymunedau Digidol Cymru ar danielle.roberts@wales.coop.

Diolch

Diolch i'r holl bartneriaid am ddod â'u harbenigedd a'u profiad drwy gydol y broses o weithredu a chynnal y prosiect hwn.

Diolch yn arbennig i Lyfrgell Leeds am rannu eu gwaith ar eu prosiect peilot '100% Digital Leeds' a Llyfrgell Lewisham am rannu eu gwaith ar eu prosiect peilot 'Mi WIFI'.

Atodiad

Ffurflen Asesu a chanfyddiadau Cynllun Benthyca Cyfrifiaduron Llechen y Fro:

Dewiswch eich ystod oedran?

14 – 24 ☐
25 – 34 ☐
35 – 44 ☐
45 – 54 ☐
55 – 64 ☐
65 – 74 ☐
75 – 84 ☐
85 + ☐



Dewiswch eich rhyw:

Benywaidd ☐
Gwrywaidd ☐
Anneuaidd☐
Arall ☐
Mae'n well gen i beidio â dweud ☐

Dewiswch eich ethnigrwydd:
Gwyn
Seisnig/Cymreig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig ☐
Gwyddelig ☐
Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig ☐
Unrhyw gefndir Gwyn Arall ☐

Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig
Gwyn a Du Caribïaidd ☐
Gwyn a Du Affricanaidd ☐
Gwyn ac Asiaidd ☐
Unrhyw gefndir Cymysg/Aml-ethnig arall ☐

Asiaidd/Asiaidd Prydeinig
Indiaidd ☐
Pacistanaidd ☐
Bangladeshaidd ☐
Tsieineaidd ☐
Unrhyw gefndir Asiaidd arall ☐

Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig
Affricanaidd ☐
Caribïaidd ☐
Unrhyw Gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall ☐

Grŵp ethnig arall
Arabaidd ☐
Unrhyw grwp ethnig arall ☐

Mae'n well gen i beidio â dweud ☐

Pa un o'r categoriau canlynol sy'n disgrifio eich statws cyflogaeth orau?

Cyflogedig ☐

Di-waith ☐

Wedi ymddeol ☐

Myfyriwr ☐

Anabl - ddim yn abl i weithio ☐

Mae'n well gen i beidio â dweud ☐



Oes anabledd gennych?

Oes ☐

Nac oes ☐

Mae'n well gen i beidio â dweud ☐

Mae'n ein helpu i wybod a ydym yn cyrraedd pob person anabl. Os ydych wedi ticio 'oes' uchod, rhowch fanylion eich anabledd:

Ydych chi'n derbyn unrhyw fudd-daliadau?

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Mae'n well gen i beidio â dweud ☐

Os ydych wedi ticio 'ydw', dywedwch pa fudd-daliadau rydych yn eu derbyn:



Cyfeiriad:

Llinell Gyntaf y Cyfeiriad

Cod Post:

Beth yw eich statws o ran tai?
Cymdeithas Dai Newydd
Tai Hafod ☐
Wales & West Housing ☐
United Welsh ☐
Cartrefi'r Fro ☐
Rhentu Preifat ☐
Perchennog Tŷ ☐
Mae'n well gen i beidio â dweud ☐

Oes gennych chi ddyfais ddigidol yn barod e.e. ffôn symudol, llechen?
Oes ☐
Nac oes ☐
Os ydych chi wedi ticio 'oes', dywedwch pa ddyfais/dyfeisiau byddwch chi'n eu defnyddio?

A ydych chi wedi defnyddio llechen o'r blaen?

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Os ydych chi wedi ticio 'ydw', dywedwch at ba ddiben rydych chi wedi ei defnyddio:

A oes gennych chi fynediad i'r rhyngrwyd gartref?

Oes ☐

Nac oes ☐

Os ydych chi wedi ticio 'oes', dywedwch sut rydych yn cael mynediad i'r rhyngrwyd (er enghraifft: band eang, ffôn symudol)



Ar raddfa o 1-5, allwch chi sgorio eich lefel hyder gyffredinol wrth wneud tasgau digidol sylfaenol.

1 = ddim yn hyderus - 5 = hyderus iawn

Pre Assessment:

19. On a scale of 1-5 (1 being not confident and 5 being very confident) please can you rate your overall level of confidence to carry out basic digital skills

More Details Insights

12	4.17
Responses	Average Number

Post Assessment:

4. After taking part in the Tablet Loan Scheme, on a scale of 1-5 (1 being not confident and 5 being very confident) please can you rate your overall level of confidence to carry out basic digital tasks. E.g. sending an email

More Details

8	4.63
Responses	Average Number

Sgoriwch eich sgiliau digidol:
Sgiliau digidol gwael iawn
Sgiliau digidol gwael
Sgiliau digidol gweddol
Sgiliau digidol da
Sgiliau digidol da iawn

Pre Assessment:

20. On a scale of 1-5 (1 being Very poor digital skills and 5 being Very good digital skills) please can you rate your current digital skills

More Details Insights

12	4
Responses	Average Number

Post Assessment:

5. After taking part in the Tablet Loan Scheme, on a scale of 1-5 (1 being very poor digital skills and 5 being very good digital skills) please can you rate your current digital skills

More Details

8	4.25
Responses	Average Number

Ydych chi wedi mynychu unrhyw ddosbarthiadau/cyrsiau/sesiynau galw heibio digidol/TG yn y gorffennol?
Oes ☐
Nac ydw ☐
Os ydych chi wedi ticio Ydw, dywedwch pa gwrs a fynychwyd gennych:

8. Have you received any support with the device whilst using the Tablet Loan Scheme?

More Details

Rhowch eich rhesymau am fenthyca'r llechen hon:

11. During the time you borrowed the tablet from the library, what were the main things you used it for?

8 Responses

ID↑	Name	Responses
1	anonymous	None
2	anonymous	Google classroom
3	anonymous	To create a calendar showing my wife's and my next month's engagements
4	anonymous	kids learning apps (3yrs and 5yrs)
5	anonymous	Google
6	anonymous	Evaluate whether to buy one. Provide internet needs for my mother.
7	anonymous	I didn't have internet access at the time so it allowed more research items for household, job searching and keeping up with daily news as I have no TV
8	anonymous	Information- such as bus timetable. Music. News items- up to date issues.

Dadansoddiad o'r dyfeisiau:

Dadansoddiad o'r dyfeisiau a fenthycwyd:

LLYFRGELL	NIFER Y BENTHYCIADAU
Y Barri	17
Y Bont-faen	12
Dinas Powys	3
Llanilltud Fawr	15
Penarth	7

Y Rhws	7
Sili	3
CYFANSWM	**64**

Astudiaeth Achos 1:

Gweler isod adborth a ysgrifennwyd gan y defnyddiwr gwasanaeth:



To THE NEWYDD HOUSING ASSN.

Re Ipad Lending Scheme

23.3.21

Dear Newydd,

Providing Ipads was an inspired venture & one that has brought me much benefit. EG. I have a niggling wrist injury which required an indepth understanding of. if & whenever to mend it. The Ipad allowed me to completly realize the nature of the problem plus the road to remedy the problem myself. It is progressing well so far.

I am 71, live alone, & receive Pension credit, so taking on any extra costs is daunting. Imagine my delight at being lent a cost free Ipad. Couldn't believe my good fortune. It's given me healing, education, & much pleasure.

My sincerest thanks to you, & to Penarth Library staff for instructing me with it.

Kind [illegible]

Astudiaeth Achos 2:

Gweler isod adborth a ysgrifennwyd gan Suki Flynn, Cynorthwy-ydd Llyfrgell, Gwasanaeth Llyfrgell Penarth:

Darllenwch adborth iPad gan un o fenthycwyr Llyfrgell Penarth, Mike. Dyn 82 oed hyfryd yw e. Mae ef a'i wraig yn ymweld â'r llyfrgell yn rheolaidd ac maent wedi trysori llyfrau a darllen erioed. Mae Mike yn ŵr sydd wedi teithio llawer ac yn ystod ei yrfa wedi dysgu newyddiaduraeth ledled y byd.

Bu'n rhaid i'r ddau hunanwarchod yn ystod y cyfnod clo ac mae symudedd Mike wedi gwaethygu yn y cyfnod hwnnw. Mae gan Mike broblem gyda'i olwg yn dirywio sydd wedi ei gwneud yn amhosibl iddo ddarllen. Cafodd lawdriniaeth aflwyddiannus ar ei lygaid i dynnu cataractau ac roedd i fod i gael y driniaeth eto pan darodd Covid!

Roedd Mike wedi ceisio darllen testun print bras ac ehangu'r ffont ar ei gyfrifiadur ond nid oedd yr un o'r rhain yn gweithio iddo. Rhoddodd gynnig ar lyfrau llafar hefyd ond roedd hyn yn anfoddhaol iddo gan ei fod wedi colli ei allu i ddarllen. Dyma pryd yr awgrymon ni iddo geisio defnyddio iPad.

Credwn ei bod yn deg dweud bod hyn wedi trawsnewid bywydau'r ddau yn llwyr ac wedi adfer ei gariad at ddarllen. Mae wrth ei fodd yn dewis a lawrlwytho eLyfrau i'r iPad ac mae'n gwerthfawrogi'r profiad o ddal y llechen ar ei lin yn union fel petai'n llyfr. Mae hefyd wedi cael effaith gadarnhaol enfawr ar fywyd ei wraig - roedd hi'n teimlo'n euog o allu darllen pan na allai ei gŵr wneud hynny mwyach. Mae'r benthyciad iPad wedi datrys hyn ac mae'r ddau bellach yn gallu cael blas ar ddarllen a'i fwynhau unwaith eto.

Maen nhw wedi dweud bod yr iPad wedi dod yn amhrisiadwy iddyn nhw ac yn dilyn diwedd cyfnod y benthyciad, maen nhw am brynu un yn union yr un fath gan nad oedden nhw'n gallu dychmygu bywyd hebddo.

Astudiaeth Achos 3:

Gweler isod astudiaeth achos a ysgrifennwyd gan Chris Edwards, Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgell, Cyngor Bro Morgannwg:

Ym mis Hydref 2019 lansiodd Llyfrgelloedd Bro Morgannwg y cynllun benthyca cyfrifiaduron llechen cyntaf yng Nghymru. Cafodd y cynllun ei gynnal mewn Partneriaeth â Cael y Fro Ar-lein (CYFA), yn enwedig gyda phartneriaid Tai Newydd a Chymunedau Digidol Cymru. Roedd CYFA wedi derbyn cyllid i brynu iPads gan Cymunedau Gwledig Creadigol ac ategwyd hyn gan gyllid pellach a pharhaus gan Lyfrgelloedd. Darparwyd 2 iPad i bob llyfrgell yn y Fro i'w benthyca i ddefnyddwyr ar fenthyciad 3 wythnos. Daeth yr iPads gyda meddalwedd hidlo ac olrhain a chesys amddiffynnol cryf. Cawsant hefyd eu llwytho ymlaen llaw gydag appiau llyfrgell (BorrowBox, RBDigital), appiau iechyd a lles a gwasanaethau gwybodaeth cymunedol eraill. Roedd yr iPads ar gael i unrhyw un dros 18 oed heb fynediad i'r rhyngrwyd gartref a oedd yn aelod cofrestredig o Lyfrgell y Fro.

Rhoddodd y staff gyflwyniad cychwynnol i'r iPad i ddefnyddwyr pan gafodd ei gasglu fel rhan o'r broses gofrestru. Os oeddent yn teimlo bod angen mwy o wybodaeth arnynt am sut i ddefnyddio'r iPad, gallai'r defnyddwyr ddewis archebu sesiwn hyfforddi fanylach gyda'r Hyrwyddwyr Digidol a oedd yn darparu sesiynau Galw Heibio Digidol am ddim yn y llyfrgell.

Cafodd yr iPads eu benthyca sawl gwaith yn ystod y flwyddyn cyn y cyfyngiadau symud. Ymunodd nifer o bobl â'r llyfrgell yn benodol i fenthyca llechen. Mae nifer o'n defnyddwyr cyfrifiaduron mwy rheolaidd wedi benthyca llechen i allu cael gafael ar yr wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt o gartref. Roedd gan eraill ddiddordeb mewn rhoi cynnig ar lechen cyn penderfynu prynu un ac roedd rhai, fel yr enghraifft ganlynol, am ddefnyddio llechen i ddiwallu angen byrdymor.

Roedd pensiynwraig - y rhoddwn yr enw Jayne iddi - yn ddibynnol ar ei hen liniadur i gadw mewn cysylltiad ag aelodau ei theulu ledled Cymru, yn enwedig aelod o'r teulu na allai ymweld ag ef yn bersonol oherwydd salwch teuluol. Pan fethodd cliniadur Jayne, yn fuan ar ôl i'w boeler gael ei ddisodli, nid oedd gobaith y gallai Jayne brynu gliniadur newydd yn y tymor byr. Roedd Jayne wedi gweld poster yn hysbysebu'r cynllun benthyca iPads yn ystod ymweliad rheolaidd â'r llyfrgell a gofynnodd a allai fenthyg un. Gan ei bod yn weddol llythrennog o ran TG, dim ond cyflwyniad i'r iPad gan staff y llyfrgell oedd ei angen arni ac roedd yn gallu cerdded i ffwrdd â hi heb fawr o drafferth. Fel mae'n digwydd, Jayne oedd un o'r bobl olaf i fenthyca iPad cyn y cyfnod clo ar 23/03/20, felly roedd yn gallu parhau i gadw mewn cysylltiad â'i theulu a'i ddefnyddio ar gyfer gwybodaeth, siopa ac adloniant drwy gydol y cyfnod clo. Dywedodd fod "yr iPad wedi bod yn achubiaeth i mi mewn cyfnod anodd iawn a does gen i ddim syniad sut y byddwn i wedi goroesi'r cyfnod clo hebddo". Mae'n bwriadu parhau i fenthyca'r iPad mor aml ag y bydd ar gael nes y gall brynu un iddi hi ei hun.

Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos ein bod bob amser yn ceisio rhoi cynnig ar rywbeth newydd mewn llyfrgelloedd a chymryd ychydig o risg. Rydym yn agored i glywed gan sefydliadau ac unigolion eraill yn y gymuned sydd â syniadau y gallwn helpu i'w rhoi ar waith. Roedd rhywfaint o wrthwynebiad i'r syniad o lyfrgelloedd yn benthyca iPads i ddechrau. Rhywfaint ohono o fewn llyfrgelloedd ond llawer ohono o fannau eraill yn y Cyngor neu ymhlith partneriaid a deimlai y byddent yn sicr o gael eu difrodi neu eu dwyn, yn enwedig heb flaendal swmpus. Roedd pryderon eraill am y "math anghywir o bobl" yn cael eu denu i'w benthyca ac iddynt gael eu camddefnyddio mewn sawl ffordd wahanol a chreadigol. Nid yw'r cyfrifiaduron llechen wedi denu'r lefel o ddiddordeb yr oedd rhai ohonom yn gobeithio amdano ac eraill yn ofni. Roedd yr heriau technegol ynglŷn ag ailosod y cyfrifiaduron llechen rhwng defnyddwyr yn achosi rhai problemau i'r staff a oedd yn golygu ein bod yn rhy ofalus wrth eu hyrwyddo'n helaeth.

Ar ôl i'r mater hwn gael ei oresgyn, dechreuodd y nifer oedd yn eu defnyddio godi ac roeddem yn sylwi mai'r bobl yr oeddem yn disgwyl eu benthyca fwyaf oedd y bobl a ddaeth ymlaen i wneud hynny. Roedd y rhain yn ddefnyddwyr llyfrgell cyfredol yn bennaf yn y grwpiau oedran hŷn nad oedd ganddynt ffôn clyfar na mynediad i'r rhyngrwyd gartref. Roedd gan y rhan fwyaf ohonynt rai sgiliau TG ac roeddent am ennill mwy. Roeddent yn chwilfrydig gan mwyaf ac yn awyddus i ddarganfod ai llechen oedd y cam

cywir iddyn nhw, ac yna roedd eraill fel Jayne a oedd yn ceisio llenwi bwlch byrdymor o ran cael mynediad personol neu eisiau defnyddio dyfais gartref i'w harbed rhag dod i'r llyfrgell am ychydig wythnosau.

Astudiaeth Achos 4:

Gweler isod astudiaeth achos a ysgrifennwyd gan Scott Tandy, Swyddog Adfywio Cymunedol yng Nghymdeithas Dai Newydd:

Alan oedd un o'r unigolion olaf i fenthyca llechen cyn i'r llyfrgelloedd gau oherwydd COVID-19. Yn ystod y cyfnod hwn rhoddodd Cymdeithas Dai Newydd y gorau i dderbyn ymwelwyr i'w Cynlluniau Byw'n Annibynnol i atal lledaeniad y feirws. Drwy gefnogaeth Cynllun Benthyca Cyfrifiaduron Llechen y Fro, llwyddodd i droi ei unigrwydd yn deimlad o gael ei gynnwys.

Canfu Alan fod cael mynediad i'r rhyngrwyd yn amhrisiadwy dros y cyfnod hwn o'i gymharu â chymheiriaid o oedran tebyg: mae cofnodion gan *Ofcom (2018)* yn dangos nad yw mwy na thraean o'r boblogaeth 65+ oed a dros hanner y boblogaeth 75+ oed (53.1%) ar-lein *(erioed wedi defnyddio'r rhyngrwyd neu wedi'i ddefnyddio ddiwethaf dros 3 mis yn ôl).*

Mae pobl hŷn hefyd yn fwy tebygol o fod heb sgiliau digidol. Roedd prif ganfyddiadau Mynegai Defnyddwyr Banc Lloyds 2020 yn dangos bod mwy na hanner y bobl 65 oed a hŷn heb Sgiliau Digidol Hanfodol neu sgiliau Sylfaen (55%, Mynegai Digidol Defnyddwyr 2019), o'i gymharu â dim ond 6% o'r rhai 15-34 oed.

Roedd sgiliau digidol gwael Alan hefyd yn cefnogi'r ymchwil hon. Fodd bynnag, drwy gefnogaeth barhaus Hyrwyddwyr Digidol a mynediad i 'Gynhwysiant Digidol' Google Classroom y partneriaid, roedd Alan yn gallu dysgu sgiliau digidol hanfodol gan ei alluogi i ddefnyddio'r llechen yn hyderus, cysylltu â'r rhyngrwyd, cyfathrebu â ffrindiau ac aelodau'r teulu drwy'r cyfryngau cymdeithasol, e-bost a fideo, a phrynu eitemau, i gyd wrth gadw'n ddiogel ar-lein.
Wrth siarad ag Alan am ddefnyddio ei stori fel astudiaeth achos, gofynnodd a ellid nodi'r canlynol: "Ni allaf ddiolch digon i Gynllun Benthyca Cyfrifiaduron Llechen y Fro am ganiatáu i mi gael benthyg y llechen a chael mynediad i'r rhyngrwyd mewn cyfnod mor rhyfedd. Mae byw ar fy mhen fy hun yn yr amser hwn wedi bod yn anodd iawn i mi, felly mae'r llechen wedi fy ngalluogi i gadw fy meddwl yn brysur ac aros mewn cysylltiad â'r byd y tu allan."

Astudiaeth Achos 5

Gweler isod adborth a ysgrifennwyd gan y defnyddiwr gwasanaeth:

Mae benthyca'r iPad wedi bod yn amhrisiadwy i ni dros y Cyfnod Clo. Nid oes gennym gyfrifiadur na mynediad i Wi-Fi yn ein fflat, ac er nad ydym yn cael ein harwain gan dechnoleg yn arbennig, roeddem yn meddwl ei bod yn syniad da defnyddio cynllun benthyca'r llyfrgell, yn enwedig gan ein bod gartref yn addysgu plentyn 6/7 oed.

Cymerodd ychydig o amser i ni ddechrau arni, ond drwy wneud hyn ry'n ni wedi cael mynediad i lawer o bethau ar gyffyrddiad botwm. O safbwynt addysgol, rydym wedi edrych ar ffigyrau hanesyddol, mapiau, tirnodau, paentiadau, hanes naturiol a bywyd gwyllt o bob rhan o'r blaned.

Rydym hefyd wedi gwrando ar fathau amrywiol o gerddoriaeth ac wedi mwynhau rhoi cip i'n merch ar gartwnau o'r gorffennol nad yw erioed wedi'i gweld o'r blaen. Mynediad i wybodaeth leol - o blymwyr ym Mhenarth i'r rheoliadau COVID diweddaraf. Weithiau mae cael mynediad i'r gêm Candy Crush hefyd wedi codi ysbryd mewn cyfnod heriol.

Astudiaeth Achos 6

Gweler isod astudiaeth achos gan Rhodri Matthews, Rheolwr Llyfrgell, Gwasanaeth Llyfrgell y Barri:

Ffoniodd menyw Lyfrgell y Barri a gofynnodd a oedd hi'n wir ein bod yn rhoi benthyg cyfrifiaduron llechen. Y rheswm yr oedd hi'n ffonio oedd bod ei chymydog oedrannus wedi'i siomi na allai fynd i angladd ei ffrind. Roedd hi'n dyfalu tybed a allai gael benthyg llechen gan fod yr angladd yn cael ei dangos ar-lein a gallai ei chymydog ei wylio. Dywedodd y byddai'n sicrhau y byddai popeth yn cael ei drefnu iddo ei gwylio gan nad oedd wedi arfer defnyddio llechen. Roedd hyn i gyd yn mynd i ddigwydd y diwrnod wedyn.

Yn anffodus, roedd cyfrifiaduron llechen Llyfrgell y Barri ar fenthyg ond yn ffodus roedd un ar gael yn Llyfrgell Llanilltud Fawr. Gyrrodd aelod o staff draw i Lyfrgell Llanilltud Fawr i gael y llechen. Cododd y fenyw y llechen o Lyfrgell y Barri y prynhawn hwnnw a llwyddodd i sicrhau bod ei chymydog oedrannus yn gallu gwylio angladd ei ffrind. Roedd y dyn yn ddiolchgar iawn bod y gwasanaeth hwn ar gael a'i fod yn gallu bod gyda'i ffrind ar y diwedd.